

Rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith

Ar 25 Gorffennaf 2016, cafodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (y Comisiwn) ei gyflwyno gan Gomisiynydd y Gymraeg â:

Hysbysiad Cydymffurfio – ADRAN 44 MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011

Mae'r hysbysiad hwn

- yn nodi neu'n cyfeirio at, un neu ragor o safonau a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1), a
- sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson (y Comisiwn yn yr achos hwn) gydymffurfio â'r safon neu â'r safonau a nodir neu y cyfeirir ati neu atynt.

Mae hysbysiad cydymffurfio yn aros mewn grym oni chaiff, a hyd oni chaiff, ei ddirymu. Daw cynllun iaith Gymraeg y Comisiwn i ben ar 25 Ionawr 2017, y diwrnod y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â'r safonau am y tro cyntaf.

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Gohebiaeth

Pan fydd y Comisiwn yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, byddwn yn ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg.

Pan fyddwn yn gohebu ag unigolion yng Nghymru am y tro cyntaf, byddwn yn gofyn iddynt a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthym yn Gymraeg, ac os ydynt yn ymateb i ddweud eu bod yn dymuno hynny, byddwn yn cadw cofnod o'u dymuniad a gohebu yn Gymraeg â hwy o hynny ymlaen, gan gynnwys unrhyw ffurflenni y byddwn yn eu hanfon atynt.

Pan fyddwn yn anfon gohebiaeth, am y tro cyntaf, a gyfeirir at ddau unigolyn yng Nghymru sy'n aelodau o'r un aelwyd, byddwn yn gofyn iddynt a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthym yn Gymraeg, ac os yw'r ddau ohonynt yn ymateb i ddweud eu bod yn dymuno hynny, byddwn yn cadw cofnod o'u dymuniad, a gohebu yn Gymraeg o hynny ymlaen pan fyddwn yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau ohonynt. Gwnawn hynny'n ogystal pe bai dim ond un ohonynt yn ymateb ei fod ef neu hi am gael gohebiaeth yn Gymraeg.

Pan fyddwn yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau yng Nghymru, byddwn yn anfon fersiwn dwyieithog ohoni i bawb ac eithrio'r rheini, sydd gennym yn ein cofnodion, a ddywedodd wrthym eu bod yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg yn unig. Pan fydd rhaid anfon y fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddwn yn trin y ddau fersiwn yn gyfartal o ran statws a golwg, ac anfonir y ddau ohonynt yr un pryd.

Byddwn yn datgan mewn gohebiaeth, cyhoeddiadau a hysbysiadau sy'n gwahodd personau yng Nghymru i anfon ymateb neu ohebiaeth atom, ein bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Cyfathrebu dros y ffôn

Pan fydd person yn cysylltu â ni ar ein prif rif ffôn yng Nghymru byddwn yn ei gyfarch yn Gymraeg a Saesneg. Bydd aelodau staff ein derbynfa yn rhoi gwybod i alwyr bod gwasanaeth Cymraeg ar gael iddynt os ydynt yn dymuno hynny a phan fo'n angenrheidiol byddant yn trosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol pan nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.

Pan fyddwn yn cyhoeddi prif rif ffôn ein swyddfa yng Nghymru byddwn yn nodi yn Gymraeg a Saesneg ein bod yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg.

Bydd neges peiriant ateb ein prif switsfwrdd yng Nghymru yn ddwyieithog a bydd yn hysbysu galwyr, yn Gymraeg, y gallant adael neges yn Gymraeg.

Pan fydd galwr yn ffonio un o'n llinellau uniongyrchol yn ein swyddfa yng Nghymru caiff ef neu hi ei gyfarch/chyfarch yn Gymraeg a Saesneg. Os bydd y galwr am siarad Cymraeg, ond nad yw'r sawl sy'n ateb y ffôn yn gallu siarad Cymraeg, bydd yr aelod staff yn ceisio trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad. Os na fydd siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio gyda'r ymholiad ar gael, bydd y galwr yn cael dewis naill ai cael siaradwr Cymraeg i'w ffonio'n ôl cyn gynted â phosibl, parhau â'r alwad yn Saesneg neu gyflwyno ei ymholiad yn Gymraeg trwy lythyr neu dros yr e-bost.

Pan fyddwn yn ffonio unigolion am y tro cyntaf, byddwn yn gofyn iddynt a ydynt yn dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthym yn Gymraeg. Os ydynt yn ymateb i ddweud eu bod yn dymuno hynny, byddwn yn cadw cofnod o'u dymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir iddynt o hynny ymlaen yn Gymraeg hyd nes ei bod yn angenrheidiol eu trosglwyddo i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol pan nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.

Cyfarfodydd yng Nghymru rhwng y Comisiwn a gwahoddedigion

Pan fyddwn yn gwahodd un person yn unig i gyfarfod, byddwn yn gofyn a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod a'i hysbysu y byddwn, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw.

Pan fyddwn yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, byddwn yn gofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Pan fod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi ein hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, byddwn yn trefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.

Cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru

Fel rheol, nid yw'r Comisiwn yn cynnal cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yng Nghymru. Pan fydd yn gwneud hynny byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod, a byddwn yn llafar yn Gymraeg yn hysbysu'r rheini sydd yn bresennol bod y gwasanaeth hwnnw ar gael a bod croeso iddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg.

Fodd bynnag, byddwn yn rheolaidd yn cynnal cynadleddau a digwyddiadau yng Nghymru y daw dirprwyon iddyn nhw drwy wahoddiad yn unig ac sydd yn agored i'r rhai cyfrannog o sectorau a rhanbarthau gwahanol Cymru.

Ar gyfer digwyddiadau o'r fath anfonir gwahoddiadau yn Gymraeg a Saesneg.

Pan fyddwn yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydym yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd byddwn, pan yn briodol, yn gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg. Os yw o leiaf un o'r personau hynny yn ein hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw.

Mewn digwyddiadau o'r fath, pan fydd o leiaf 10% o'r bobl sydd wedi cofrestru i fod yn bresennol yn ein hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw a byddwn yn llafar yn Gymraeg yn hysbysu'r rheini sydd yn bresennol bod y gwasanaeth hwnnw ar gael a bod croeso iddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg.

Pan fyddwn yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod o'r fath, byddwn yn sicrhau bod y deunydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bod y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd.

Pan fyddwn yn ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, byddwn yn sicrhau, wrth hyrwyddo'r digwyddiad, y bydd pob deunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu ar gyfer y digwyddiad yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd. Bydd yr holl wasanaethau, a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, yn Gymraeg ac yn Saesneg, pan fo'n rhesymol ac yn gymesur i wneud felly, yn ogystal ag unrhyw gyhoeddiadau sain a wneir.

Cyfarfodydd eraill gyda'r Cyhoedd yng Nghymru

Pan fyddwn yn trefnu ymweliad neu apwyntiad i aelodau'r cyhoedd ymlaen llaw a fydd yn golygu y byddan nhw'n dod i'n derbynfa, byddwn yn gofyn iddyn nhw a ydyn nhw'n dymuno cael gwasanaeth derbynfa Cymraeg. Byddwn yn cofnodi enw pob person sy'n gofyn am y gwasanaeth hwnnw ac yn darparu gwasanaeth derbynfa wyneb i wyneb yn Gymraeg iddyn nhw.

Deunydd hysbysebu a chyhoeddusrwydd

Caiff yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, deunyddiau arddangos a hysbysebu a ddefnyddir yng Nghymru eu cynhyrchu'n ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os bydd rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd – a bydd y ddau fersiwn ar gael yr un pryd ac yn hygyrch i bawb.

O ran deunydd sy'n targedu cynulleidfa gyfyngedig ac arbenigol byddwn yn ystyried yr angen i gynhyrchu'r deunydd hwn yn ddwyieithog ym mhob achos, gan gofio am natur y gynulleidfa a'r pwnc dan sylw.

Bydd unrhyw hysbysebion a roddir mewn papurau newydd Saesneg (neu ddeunydd tebyg) a ddsberthir yn bennaf yng Nghymru neu yng Nghymru'n unig yn ddwyieithog neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddau fersiwn yn ymddangos yr un pryd ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).

Bydd hysbysebion swydd ar gyfer swyddi yn y swyddfa yng Nghymru yn cyfleu'r neges y gall ffurflenni cais gael eu cyflwyno yn Gymraeg.

Cynhelir ymgyrchoedd marchnata uniongyrchol yng Nghymru yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Bydd deunyddiau hyrwyddo a gwybodaeth a ddangosir gan y Comisiwn mewn digwyddiadau yng Nghymru yn gwahodd y cyhoedd i gyfathrebu â'r Comisiwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Os yn bosibl, bydd staff dwyieithog yn gweithio ar stondinau ac arddangosfeydd mewn digwyddiadau.

Cyhoeddi ac argraffu deunydd

Fel arfer, byddwn yn ceisio cyhoeddi deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen.

Os bydd rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, os byddai un ddogfen yn rhy hir neu swmpus), byddwn yn sicrhau bod y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd. Hefyd, byddwn yn ceisio sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael yr un pryd ac yn hygyrch i bawb. Bydd y naill fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall hefyd.

Gan fod adroddiadau ymchwil yn cael eu cynhyrchu ar gyfer cynulleidfa arbenigol, nid ydym yn eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, os bydd y Comisiwn yn ystyried bod

pwnc neu natur yr ymchwil yn arbennig o berthnasol i gynulleidfa Gymraeg, byddwn yn ystyried y posibilrwydd o gynhyrchu crynodebau ymchwil yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Bydd pob ffurflen at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog mewn un ddogfen. Bydd unrhyw ddeunydd esboniadol ar gael yn ddwyieithog hefyd. Os bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu hargraffu fel dogfennau ar wahân am ryw reswm, bydd y fersiynau hyn yn cael eu hargraffu'r un pryd. Hefyd, byddant yn gyfartal o ran maint ac ansawdd a chânt eu dosbarthu gyda'i gilydd drwy'r post neu dros y cownter. Bydd y ddau fersiwn yn cynnwys neges yn cadarnhau bod y ffurflen hefyd ar gael yn yr iaith arall.

Caiff pob datganiad i'r wasg yng Nghymru ei gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ac ar yr un pryd.

Gwefan

Bydd testun pob tudalen o'n gwefan Prydain Fawr sy'n berthnasol i'r cyhoedd yng Nghymru, ac eithrio'r rheini sy'n berthnasol i Loegr yn unig neu i'r Alban, ar gael yn Gymraeg. Bydd pob tudalen Gymraeg ar ein gwefan yn gweithredu'n llawn a bydd yn gyfartal i'r dudalen Saesneg gyfatebol o ran cynllun, rhyngwyneb, dewislenni ac ansawdd. Bydd gan bob tudalen dogl i'w chysylltu'n uniongyrchol â'i thudalen gyfatebol yn yr iaith arall. Byddwn yn ceisio cyhoeddi'r dudalen Saesneg a'i thudalen Cymraeg gyfatebol yr un pryd. Pan na fydd hynny'n bosibl, byddwn yn cyhoeddi'r dudalen ar yr un diwrnod neu cyn gynted â phosibl wedi hynny.

Apiau

Pan fydd yn berthnasol i'r cyhoedd yng Nghymru, caiff pob ap ei gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd. Fel rheol byddwn yn ceisio sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd.

Cyfryngau cymdeithasol

Pan fyddwn yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol bydd y fersiwn Cymraeg yn gyfartal i'r fersiwn Saesneg o ran ansawdd a chyflwyniad gweledol a byddwn yn ceisio cyhoeddi'r ddau fersiwn yr un pryd.

Os bydd person yn cysylltu â ni drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).

Arwyddion yng Nghymru

Fel arfer, byddwn yn sicrhau bod ein holl arwyddion parhaol a thros dro sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog, gyda'r testunau Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd.

Bydd y testun Cymraeg yn cael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf a bydd yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

Byddwn yn glynu wrth yr arfer hwn, waeth a yw arwyddion yn cael eu gosod am y tro cyntaf neu'n cael eu hailosod.

Os darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddan nhw'n gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd.

Dyfarnu contractau

Pan fydd pwnc unrhyw wahoddiad i dendro am gontract yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg, neu os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cyhoeddi'r gwahoddiad yn Gymraeg, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r gwahoddiad ar gyfer tendro yn Gymraeg ac yn Saesneg, gyda'r ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd a chân nhw eu dosbarthu gyda'i gilydd. Bydd y ddau fersiwn yn datgan y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg

Pan fyddwn yn cael tendr yn Gymraeg a'i bod yn angenrheidiol i gyfweld y tendrwr hwnnw fel rhan o'n hasesiad o'r tendr, byddwn yn gofyn iddo/iddi a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad a byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r diben hwnnw.

Pan fyddwn yn rhoi gwybod i dendrwr a gyflwynodd y tendr yn Gymraeg beth yw ein penderfyniad mewn perthynas â'r tendr, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg.

Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau y byddwn yn eu gwneud gyda thrydydd parti yn gyson â'r Safonau Cymraeg perthnasol, pan fydd y cytundebau neu'r trefniadau hynny yn ymwneud â darparu gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau bod trydydd parti yn darparu'r gwasanaethau hynny yn unol â'r safonau.

Hunaniaeth gorfforaethol

Byddwn yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Bydd ein henw, manylion cyswllt, logo, sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg ar bob deunydd sy'n dangos ein hunaniaeth gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys ein papur pennawd – a deunydd fel cardiau busnes, bathodynau adnabod, cardiau cydnabod, slipliau cyfarch a gwahoddiadau.

Bydd pob arwyddiant e-bost staff yng Nghymru yn dangos logo dwyieithog y Comisiwn, eu teitl swydd yn Gymraeg a Saesneg a bydd yn dangos bod y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg, a phan fo'n briodol bydd yn dangos os yw'r aelod staff yn siarad Cymraeg yn rhugl neu yn dysgu'r iaith.

Cyrsiau addysgol a gynigir gan y Comisiwn

Pan fyddwn yn cynnig cwrs addysgol sy'n agored i'r cyhoedd, byddwn yn asesu'r angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg. Pan fo'n briodol, byddwn yn cynnig pob cwrs addysgol yn Gymraeg oni bai fod yr asesiad yn dangos nad oes angen cynnig y cwrs yn Gymraeg. Cyhoeddir casgliadau'r asesiadau ar ein gwefan.

Safonau Llunio Polisi yng Nghymru

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi mabwysiadu'r egwyddor, cyn belled ag y mae'n gyson â'r amgylchiadau a lle mae'n rhesymol ymarferol, y bydd y corff, wrth drefnu'i waith cyhoeddus yng Nghymru, yn delio â'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal.

Bydd y Comisiwn yn hyrwyddo'r Gymraeg trwy bob un o'i bolisiâu, strategaethau, prosiectau, partneriaethau a gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a bydd, pa bryd bynnag y bydd yn bosibl, yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywyd o ddydd i ddydd.

Mae'r Comisiwn yn gwerthfawrogi gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill wrth lunio a chyflenwi polisiâu, mentrau a deddfwriaeth newydd mewn ffordd galluogi sy'n cynnig y gwerth orau bosibl i'r cyhoedd.

Pan fyddwn yn cyfrannu at lunio neu gyflenwi polisiâu a mentrau, neu ddeddfwriaeth newydd a gaiff ei harwain gan sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud felly mewn ffordd sy'n ystyried eu heffaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod yr holl effeithiau, uniongyrchol neu anuniongyrchol, yn adeiladol.

Bydd adran Ystyriaethau Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Briffiau Aseiniadau, dogfen sylfaenol orfodol ar gyfer cyflenwi cynllun busnes y Comisiwn ac a gymeradwyir cyn cyhoeddi'r Cynllun Busnes am y flwyddyn, yn mynd i'r afael â gofynion yr iaith Gymraeg.

Safonau Gweithredu yng Nghymru

Er mwyn i'r Comisiwn allu cyflenwi gwasanaeth llawn yn Gymraeg bydd angen digon o aelodau staff medrus yn ein gweithle yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg.

O dro i dro, byddwn yn cynnal archwiliadau i sefydlu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu sy'n rhugl yn yr iaith a'r rheini sydd â rhywfaint o allu yn yr iaith wrth ei siarad a'i deall.

Bydd y Comisiwn bob amser yn cefnogi'r cyflogeion hynny wrth ddefnyddio'u Cymraeg yng ngweithrediadau bob dydd eu swyddi pan fo'n briodol, rhesymol ac ymarferol i wneud hynny.

Pan fyddwn yn cynnig swydd newydd i unigolyn, byddwn yn gofyn i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau neu unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth, ac sydd wedi ei chyfeirio ato'n bersonol, gael ei ddarparu yn Gymraeg. Os yw'r unigolyn yn dymuno hynny byddwn yn darparu'r contract a'r ohebiaeth yn Gymraeg.

Caiff meddalwedd cyfrifiadur, megis Cysgliad, ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg yn y Gymraeg a darparu casgliad o eiriaduron electroneg dwyieithog, ei ddarparu i staff ar gais yn ogystal â rhyngwynebau Cymraeg i feddalwedd pan fo rhyngwyneb yn bodoli.

Bydd ein dogfen weithdrefn a pholisi cwyno yn nodi y gall aelodau staff sy'n dymuno cwyno wrth y Comisiwn yn Gymraeg yn gallu gwneud hynny, yn ogystal ag ymateb yn Gymraeg i unrhyw gŵyn amdany'n nhw eu hunain. Mewn unrhyw gyfarfod dilynol, byddwn yn gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod ac yn esbonio y byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod. Caiff staff o'r fath eu hysbysu yn Gymraeg am unrhyw wybodaeth neu benderfyniadau dilynol yn ymwneud â'r gŵyn.

Bydd yr un ddarpariaeth yn gymwys i staff sy'n cael eu cynnwys mewn unrhyw broses ddisgyblu fewnol a bydd ein Polisi Disgyblu yn cadarnhau'r ddarpariaeth honno.

Drwy Bolisi Dysgu a Datblygu'r Comisiwn, caiff staff eu hannog i ddysgu neu wella eu Cymraeg, pan fydd sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol i'w swydd, bod angen eu dysgu ar ôl penodiad i swydd neu pan eu bod yn ddymunol ar gyfer swydd. I'r perwyl hwn, gall pob cyflogai wneud cais yn ôl Polisi Dysgu a Datblygu'r Comisiwn i newid eu patrwm gwaith i'w galluogi i ddilyn astudiaeth neu hyfforddiant o'r fath.

Mae'r Polisi hefyd yn ystyried ceisiadau am gymorth ariannol ar gyfer astudio'n allanol pan fo'n berthnasol i rôl bresennol y cyflogai neu i ddatblygiad ei yrfa yn y tymor hir.

Mae'r Comisiwn yng Nghymru yn aelod o Raglen Rheoli Gwasanaeth Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac mae system ar waith i nodi anghenion a chael mynediad i hyfforddiant, gan gynnwys y Gymraeg.

Mae adnoddau ar gyfer dysgu Cymraeg ar gael yn llyfrgell swyddfa'r Comisiwn yng Nghaerdydd. Mae dau set o werslyfrau Sylfaenol a Chanolradd ynghyd â Phecynnau Ymarfer a chryno ddisgiau ar gyfer adolygu. Mae'r rhain yn cynnwys dau atodiad, un i staff sydd am ddysgu yn y gweithle ac un i rieni â phlant dan bump ganddynt. Hefyd, mae dau fersiwn diweddaraf yno o becyn a chryno ddisg Teach Yourself Welsh i'r rheiny â'u bryd ar ymarfer yr iaith yn hyderus. Mae llyfrau Canllaw Gramadeg i Ddysgwyr a geiriaduron priodol ar gael hefyd.

Anogir aelodau staff i ddefnyddio'r adnoddau hyn ac i ymarfer a defnyddio'r Gymraeg y maent wedi ei dysgu â chydweithwyr yn y gwaith. Bydd y Swyddog Iaith Gymraeg bob amser yn barod i helpu a rhoi cymorth i aelodau staff wrth iddynt ddysgu'r Gymraeg a defnyddio'r adnoddau hyn.

Bydd proses ymsefydlu cyflogeion newydd yn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg, ei hanes a'i rôl ym maes diwylliant Cymru, a gofynion Safonau'r Gymraeg sy'n gymwys i'r Comisiwn.

Yn adran Comisiwn yng Nghymru'r fewnrwyd mae canllaw i staff ar sut i roi Safonau'r Gymraeg ar waith. Mae'n amlinellu arfer dda wrth ymdrin â'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith, naill ai wrth gyfathrebu'n ysgrifenedig neu ar y ffôn. Mae'n egluro'r weithdrefn i'w dilyn i sicrhau na fydd unrhyw oedi yn sgil cyfathrebu neu

ohebu yn Gymraeg na dirywiad o ran ansawdd y gwasanaeth. Mae gan yr adran hefyd restr eirfa safonol o dermau cydraddoldeb a hawliau dynol y gall cyflogeion gyfeirio ati i sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn dderbyniol i'n rhanddeiliaid.

Pan fydd y Comisiwn yn darparu hyfforddiant ym meysydd recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, gweithdrefnau cwyno a disgyblu, ymsefydlu, delio â'r cyhoedd, iechyd a diogelwch ac ar ddefnyddio Cymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd, cyfweiliadau a gweithdrefnau cwyno a disgyblu, caiff yr hyfforddiant ei ddarparu yn Gymraeg i gyflogeion sydd yn dymuno cael y fath hyfforddiant yn Gymraeg pan fo'n rhesymol ac yn gymesur i wneud felly.

Bydd llofnod e-bost pob aelod staff yn y swyddfa yng Nghymru yn dangos logo dwyieithog y Comisiwn, ei deitl swydd yn Gymraeg a Saesneg ac yn dangos bod y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Pan yn briodol, bydd yn dangos os yw'r aelod staff yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith.

Staffio yng Nghymru

Er mwyn i'n gweithle yng Nghymru ddarparu gwasanaeth llawn yn y Gymraeg, bydd angen digon o aelodau staff medrus sy'n gallu siarad Cymraeg. Felly, byddwn yn nodi'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol. Diffinnir y gofyniad hwn fel elfen o weithle neu dîm, neu'n gysylltiedig â swydd benodol. Yn yr achos 'hanfodol', bydd y gallu i gyfathrebu'n ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ofynnol.

Bydd gallu ieithyddol yn un o nifer o sgiliau a ystyrir wrth benodi staff. Pan ystyrir sgiliau cyfathrebu dwyieithog trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer unrhyw swydd, nodir hynny yn y fanyleb swydd ac yn yr hysbyseb ar gyfer y swydd honno.

Gellir penodi ymgeisydd nad yw'n gallu siarad Cymraeg i swydd lle ystyrir y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, ond lle gellir caniatáu amser i ddysgu'r iaith. Yn yr achosion hyn, bydd dysgu'r

iaith i'r lefel cymhwysedd gofynnol, o fewn amserlen resymol y cytunwyd arni, yn faen prawf perfformiad penodol.

Os na fydd ymgeiswyr addas sy'n gallu siarad Cymraeg yn gwneud cais am swydd lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol (neu lle mae ymgeisydd nad yw'n gallu siarad Cymraeg wedi'i benodi ac yn dysgu'r iaith), byddwn yn gwneud trefniadau dros dro ar gyfer darparu'r gwasanaeth Cymraeg (er enghraifft, trwy ddefnyddio staff sy'n siarad Cymraeg o rannau eraill o'n sefydliad i ddarparu rhannau o'r gwasanaeth).

Bydd disgrifiadau swydd, manylebau swydd a ffurflenni cais ar gael yn Gymraeg yn ogystal â deunydd esboniadol ynghylch ein proses ar gyfer ymgeisio am swyddi, gwybodaeth am ein proses gyfweld ac unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi.

Bydd ffurflenni cais am swyddi yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad neu mewn unrhyw ddull arall o asesiad. Byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os oes angen.

Pan fyddwn yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw'n penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg.

Safonau Cadw Cofnodion

Byddwn yn cadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydym yn eu cael sy'n ymwneud â'n cydymffurfedd â'r safonau. Byddwn yn cadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig o'r fath, yn ogystal ag unrhyw gŵyn sy'n ymwneud â'r Gymraeg pa un ai yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau ai peidio.

Byddwn yn cadw cofnod o'r camau yr ydym wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi.

Yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg ein cyflogeion, byddwn yn cadw cofnod o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar fath sgiliau yn y Gymraeg ac ar ba lefel. Byddwn yn cadw cofnod o nifer ein staff a fynychodd unrhyw gyrsiau hyfforddi a ddarparwyd yn Gymraeg gan y Comisiwn a byddwn yn cynnwys y rhif hwnnw fel canran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd yr hyfforddiant yn Gymraeg neu Saesneg.

Byddwn yn cadw cofnod o bob asesiad a gynhaliwn mewn cysylltiad â'r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag a'r nifer o swyddi newydd a gwag a gafodd eu categorio fel swyddi lle'r oedd sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, bod angen eu dysgu unwaith y penodir rhywun i'r swydd, yn ddymunol neu heb fod yn angenrheidiol.

Safonau Atodol

Mae Safonau'r Gymraeg y mae dyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw ac i'r graddau y dylem wneud hynny ar gael ar ein gwefan. Ar waelod pob tudalen y we mae dolen i'r ddogfen 'Rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith' sy'n disgrifio sut fydd y Comisiwn yn cydymffurfio â nhw.

Bydd Swyddog Cymraeg y Comisiwn yn goruchwyllo a monitro gweithrediad y Safonau o ddydd i ddydd ar ran Cyfarwyddwr Cenedlaethol y Comisiwn i Gymru, a bydd yn llunio adroddiad monitro blynyddol ar gydymffurfiedd y Comisiwn a'i gyhoeddi ar wefan y Comisiwn cyn pen 6 mis o ddiwedd y flwyddyn ariannol mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

Bydd yr adroddiad yn cynnwys nifer y cwynion a gawsom yn ystod y flwyddyn honno sy'n ymwneud â'n cydymffurfiedd â'r safonau cyflenwi gwasanaeth, llunio polisi a gweithredu.

Bydd hefyd yn cynnwys nifer y cyflogeion sydd â sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw, nifer yr aelodau staff a fynychodd cyrsiau hyfforddi a gafodd eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn, canran cyfanswm y staff a fynychodd y fersiwn Gymraeg ohonyn nhw, nifer y swyddi newydd neu wag a hysbysebwyd gennym yn ystod y flwyddyn a gafodd eu categorio fel swyddi lle'r oedd sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, bod angen eu dysgu unwaith y penodir rhywun i'r swydd, yn ddymunol neu heb fod yn angenrheidiol.